

## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023

**15/5/2023**

**Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd ) Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Tyly Roberts,

1. Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol (2022-23) y Cadeirydd.
2. Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022
3. Etholwyd Clwyd Davies yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2023-24.
4. Etholwyd Gwyn Roberts yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2023-24.
5. Enwebwyd Eleri Jones fel cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
6. Enwebwyd Tyly Roberts a Dafydd Williams fel cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
7. Adolygwyd a chadarnhawyd Polisiâu'r Cyngor.
8. Adolygwyd a chadarnhawyd rhestr eiddo'r Cyngor.
9. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd ymgymryd a'r Archwilio Mewnol.
10. Cytunwyd nad yw Cyngor Cymuned Llangywer yn gymwys i wneud cais ar gyfer Pŵer Cyffredinol o Gymhwysedd. Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol.
11. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer 2023-24 :

8/5/23 Cyfarfod Blynyddol  
12/6/23  
11/9/23  
13/11/23  
15/1/24  
11/3/24  
13/5/24 Cyfarfod Blynyddol